# Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: P-05-795

Teitl y ddeiseb: **Achosi Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG**

Testun y ddeiseb: Creodd A119 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 bwerau i ddelio â phobl sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Ni chafodd hyn ei ddeddfu yng Nghymru, ac nid oes unrhyw ddarpariaethau i ddelio â phobl sy'n creu problemau ar gyfer y GIG yn y modd hwn.

Mae yna nifer o unigolion sy'n achosi problemau tra ar safleoedd y GIG, ac mae'r heddlu yn derbyn llawer o alwadau i ddelio ag ymddygiad o'r fath, ond nid oes unrhyw ffordd o ymdrin â'r mater hwn yn effeithiol gan nad oes trosedd benodol y gall yr heddlu ei defnyddio i atal pobl, heb fod ganddynt esgus rhesymol, sydd naill ai'n achosi aflonyddwch neu niwsans, yn gwrthod gadael yr adeilad pan ofynnir iddynt, neu nad ydynt ar y safle at ddiben cael cyngor, triniaeth neu ofal meddygol.

## Cefndir – Ymdrin â niwsans ac aflonyddu

Cyflwynodd *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (CJIA)* ddarpariaethau newydd sy'n rhoi'r pŵer i'r heddlu a'r staff sy'n gweithio yn y GIG symud ac erlyn unigolion sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG.

Mae Adrannau 119 a 120 o'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau ar gyfer staff y GIG i ymdrin â niwsans neu aflonyddwch. Creodd Adran 119 drosedd newydd o achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Mae Adran 120 yn rhoi pŵer i'r heddlu neu staff awdurdodedig y GIG symud rhywun y maent yn amau ei fod wedi cyflawni'r drosedd hon. Nid yw'r Ddeddf ond yn berthnasol i ysbytai'r GIG yn Lloegr.

**Trosolwg o'r drosedd a'r pŵer i symud**

Mae Adran 119 yn trafod y drosedd o achosi niwsans neu aflonyddwch ar safleoedd y GIG. Bydd person wedi tramgwyddo os ydynt yn bodloni **pob un** o'r meini prawf a ganlyn:

a) eu bod yn achosi, heb esgus rhesymol a phan eu bod ar un o safleoedd y GIG, niwsans neu aflonyddwch i aelod o staff y GIG sy'n gweithio yno neu sydd fel arall yno mewn cysylltiad â'u gwaith, a

b) bod y person yn gwrthod, heb esgus rhesymol, adael un o safleoedd y GIG pan ofynnir iddo wneud hynny gan gwnstabl yr heddlu neu aelod o staff y GIG, a

c) nid yw'r person ar un o safleoedd y GIG er mwyn cael cyngor meddygol, triniaeth neu ofal i'w hun.

Mae Adran 120 yn rhoi pŵer i gwnstabliaid yr heddlu, swyddogion awdurdodedig (ac aelodau staff priodol y GIG a awdurdodwyd gan swyddog awdurdodedig) symud person y maent yn amau'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan Adran 119. Gellir symud person o'r safle gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen. Ni all swyddog awdurdodedig symud person (neu awdurdodi person arall i wneud hynny) os ydynt yn credu bod angen cyngor, triniaeth neu ofal meddygol arno, neu os ydynt yn credu y byddai symud y person hwnnw yn peryglu ei iechyd corfforol neu feddyliol.

Y staff allweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau hyn yw'r **Swyddogion Awdurdodedig**, sydd â'r rôl o asesu digwyddiad ac awdurdodi symud personau y maent yn amau eu bod wedi cyflawni trosedd, a **Staff priodol y GIG**, sydd â'r rôl o symud troseddwr pan fyddant wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y GIG yn Lloegr ganllawiau ar sut i weithredu darpariaethau'r CJIA 'Guidance on provisions to deal with nuisance or disturbance behaviour on NHS premises in England' (Saesneg yn unig).

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Creodd adran 119 o'r CJIA drosedd newydd yn erbyn y drefn gyhoeddus o achosi niwsans neu aflonyddwch i aelod o staff y GIG. Ni ellir carcharu unrhyw un am y drosedd hon, ond gall arwain at ddirwy sydd ag uchafswm o £1,000. Daeth yr adran hon i rym yn Lloegr ar 30 Tachwedd 2009. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Gorchymyn Cychwyn i roi adran 119 ar waith yng Nghymru.

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, a ddaeth i law ar 11 Rhagfyr 2017, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi ei fod yn ystyried ar hyn o bryd a yw hi bellach yn briodol rhoi Adran 119 ar waith yng Nghymru drwy gyhoeddi Gorchymyn Cychwyn.

### Trafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddodd Pwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad 'Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn y GIG' ym mis Gorffennaf 2009.

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru ddyletswydd i amddiffyn staff rhag niwed yn y gweithle. Mae gan y GIG rwymedigaeth gyfreithiol i nodi'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol a datblygu strategaethau priodol i ymdrin â'r risg hon.

Mae'r ffigurau a gafwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol drwy Gais Rhyddid Gwybodaeth yn dangos y bu 18,000 o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff mewn ysbytai'r GIG yn ystod cyfnod o bum mlynedd rhwng 2011 a 2016.

Cafodd yr Assaults on Emergency Workers (Offences) Bill (Saesneg yn unig), sef Bil Aelod Preifat gan Chris Bryant AS, ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Gorffennaf 2017. Y cam nesaf fydd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Ebrill 2018. Mae'r Bil yn creu trosedd newydd o ymosodiad a churo yn erbyn gweithiwr argyfwng (gan gynyddu'r gosb hyd at uchafswm o 12 mis yn y carchar), ac mae hefyd yn creu ffactor gwaethygol statudol a fydd yn berthnasol yn achos ymosodiadau eraill a throseddau cysylltiedig yn erbyn staff y gwasanaethau brys.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ym Mhapur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (Saesneg yn unig).